**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Hydref 2022 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | T J Hennegan |
| V A Holland | C A Holley | P R Hood-Williams |
| M Jones | S M Jones | H Lawson |
| W G Lewis | A S Lewis | F D O'Brien |
| S Pritchard | R C Stewart | M S Tribe |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Leanne Ahern | PSB Support Officer |
| Steve King | Information, Research & GIS Team Leader |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Suzy Richards | Sustainable Policy Officer |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L R Jones a/ac P N May

---

### 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorwyr T J Hennegan, H Lawson ac S Pritchard – Personol – Cofnod Rhif 5 - Bwrdd Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

### 2 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 3 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 16 Awst 2022 fel cofnod cywir.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 5 Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Roedd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd), Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd Cyd-bwyllgor BGC Abertawe), Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor BGC Abertawe a'r Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol yn bresennol i Graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC). Ymunwyd â nhw gan swyddogion a oedd yn cydlynu gwaith y BGC, arweinwyr gweithredol sy'n gweithio ar gyflawni Amcanion Lles y BGC, a chynrychiolwyr strategol eraill y BGC.

Darparwyd y canlynol i'r Pwyllgor i gefnogi'r sesiwn, ar gyfer cwestiynau:
- Adroddiad Blynyddol y BGC 2021/22 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n dangos bod amcanion lles y BGC yn cael eu cyflawni
- gwaith sy'n cael ei wneud i wella fframwaith perfformiad y BGC (yn dilyn mater a godwyd gan y Pwyllgor yn y sesiwn Craffu flaenorol)
- yr Asesiad o Les Lleol newydd (cyhoeddwyd ym mis Mai 2022), a
- phapur ar y cynnydd gyda datblygu Cynllun Lles Lleol newydd y mae'n rhaid iddo fod ar waith erbyn Mai 2023.

Gofynnwyd cwestiynau gan y Pwyllgor a chafwyd trafodaeth ynglŷn â pherfformiad y BGC a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

1) Ymdrechion i wella'r ffordd y mae'r BGC yn mesur ei berfformiad er mwyn hwyluso Craffu, a heriau ynghylch hyn;

2) Cyllid ac adnoddau'r BGC;

3) Effaith y pandemig ar y BGC;

4) Cynnwys y cyhoedd yng ngwaith y BGC a datblygu'r Asesiad o Les newydd;

5) Sut y gellid gwella Adroddiad Blynyddol y BGC, e.e., yn ogystal â chanolbwyntio ar gynnydd o ran cyflawni amcanion lles y BGC, dan arweiniad aelodau statudol unigol, enghreifftiau o gydweithio effeithiol ar faterion;

6) Dangosyddion Lles Lleol, gan gynnwys perfformiad mewn perthynas â diogelwch cymunedol ac ansawdd aer; a

7) Cynnwys Pwyllgor y Rhaglen Graffu wrth graffu ar Gynllun Lles drafft y BGC.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau, Swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 6 Craffu Cyn Penderfynu: Diweddariad ar Fuddsoddiad Prosiect Oracle.

Roedd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau gyda chymorth y Pennaeth Digidol a Gwasanaethau i Gwsmeriaid, yn bresennol i graffu cyn penderfynu ar adroddiad y Cabinet ar y Diweddaraf am Fuddsoddiad Prosiect Oracle. Cyflwynir yr adroddiad i'r Cabinet ar 20 Hydref i wneud penderfyniad.

Roedd Cyd-adroddiad Aelod y Cabinet dros yr Economi, Strategaeth a Chyllid ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau yn darparu'r diweddaraf am brosiect Oracle Fusion ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am fuddsoddiad ychwanegol yn y prosiect i dalu costau anochel sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac adfer ohono. Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r cynllun a'r llinell amser diwygiedig ar gyfer rhoi'r prosiect Oracle ar waith (cwblhau erbyn 1 Ebrill 2023) ynghyd â buddsoddiad pellach (£2.8m) fel yr amlinellir.

Roedd cwestiynau'r pwyllgor yn canolbwyntio ar resymau dros oedi'r prosiect, pryderon ynghylch y goblygiadau ariannol, archwilio'r meysydd penodol o wariant a restrir yn Nhabl 1 (paragraff 4.1 adroddiad y Cabinet), a'r rhesymau dros y gweithgareddau ychwanegol a nodir. Gofynnwyd am eglurhad o ran cyfanswm costau'r prosiect, y risg o gynyddu costau ymhellach o ystyried amrywiadau a adroddwyd a all fod allan o reolaeth y cyngor, (e.e., amseru cyflwyno dyfarniad cyflog athrawon a llywodraeth leol).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet yn amlinellu barn y Pwyllgor cyn cyfarfod y Cabinet ar 20 Hydref 2022.

## 7 Aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig, adroddwyd am rai newidiadau ar lafar i'w cytuno:

- Panel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion – Ychwanegu'r Cyng. Cheryl Philpott
- Panel Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – Ychwanegu'r Cyng. Cheryl Philpott
- Gweithgor Diogelwch Ffyrdd – Ychwanegu'r Cyng. Sara Keeton

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 8 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2022/23 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Yn unol â chynllun gwaith y Pwyllgor, y cynllun ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 15 Tachwedd yw:

- Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Tipio'n Anghyfreithlon
- Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol
- Camau Dilynol: Gweithgor y Gweithlu Craffu

## 9 Llythyrau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

## 10 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiad ac amser Cyfarfodydd y Panel/Gweithgor Craffu sydd ar ddod, er gwybodaeth.

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Craffu Cyn Penderfynu**

Daeth y cyfarfod I ben am 5.44 pm

**Cadeirydd**